# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Ionawr 11eg 2023

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, S.P.Jones, D.Morris, C.Edwards, Gavin Jones, C.Dixon G.Hughes, D.Griffiths.

**Ymddiheuriad** -Dim.

**Cofnodion Tachwedd 2022.**

Cynnigodd Cyng D. Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S. Roberts.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod**.

Dim.

**Materion yn codi.**

**Giat Green Lane**- Adroddodd Cyng Edwards nad oedd y gwaith trin y giat sydd wedi malu wedi ei gwblhau.

Clerc i gysylltu a swyddogion CNC a'r Parc i drafod y sefyllfa.

Mae'r mater yma yn mynd ymlaen ers rhai misoedd sydd yn siom I'r cyngor.

**Ffordd Cefndeuddwr**- Nid yw'r mater wedi'i ddatrus.

Mae'r cyngor am gyfarfod swyddogion cyngor Gwynedd ar y safle.

**Y ffordd gerdd blwch post Hermon**- Nid yw'r mater wedi'i ddatrus.

Mae'r cyngor am gyfarfod swyddogion Cyngor Gwynedd ar y safle.

Er gwaethaf derbyn llythyrau oddi wrth adran Ardal Ni Cyngor Gwynedd yn datgan y byddent yn gwneud gwaith ym mhentref Ganllwyd yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2022 mae'r cyngor cymuned yn siomedig nad yw'r gwaith yn ardal **Tŷ Cerrig** a'r ffordd y tu allan i neuadd y pentref wedi ei ddechrau. Yn wir, nid yw'r cyngor cymuned yn ymwybodol o unrhyw waith sydd wedi'i wneud yn y pentref.

**Maesgwm ac ardal parcio gyferbyn â chyffordd Ty'n Y Groes**- nid oedd y cyngor cymuned wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan Cyngor Gwynedd na y asiantaeth cefnffyrdd yn ymwneud a’r problemau a drafodwyd yn yr ardaloedd yma, mae’r clerc am gysylltu a swyddog arall er mwyn datrys y problemau.

**Rhaglen gyflwyno 20 mya**- mae’r clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Mr Marc Musgrave swyddog adran cefnffyrdd fod cyflymder moduron trwy pentref Ganllwyd yn aros ar 30mya.

Bydd aelodau'r cyngor cymuned yn llunio rhestr o gwteri a draeniau ymyl ffordd sydd wedi'u blocio gan dail a gwastraff arall cyn anfon y rhestr i Gyngor Gwynedd i'w sylw.

**Cynghorwr Sir.**

Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth gan GIG Cymru na fyddynt yn dechrau'r broses ymgysylltu ffurfiol mewn perthynas â'r adolygiad o wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru tan o leiaf yn gynnar ym mis Chwefror 2023.

**Safle dadgomisiynu Trawsfynydd**- Mae'r Cynghorydd Sir wedi cyfarfod â Mr Williams swyddog Parc Cenedlaethol Eryri i drafod y mater hwn. Eglurodd Mr Williams y bydd gwastraff niwclear yn aros ar y safle yn Nhrawsfynydd ac yn cael ei gladdu yn y lleoliad cyn cael ei orchuddio â choncrit/sment. Ystyrir bod y gwastraff niwclear yn beryglus i'w symud ar y ffordd i safle arall. Teimlai'r cyngor fod angen rhagor o wybodaeth am y broses hon ac roedd yn dymuno cyfarfod ag aelodau Magnox i drafod. Bydd y Cynghorydd Griffiths yn siarad â Chynghorwyr Sir cyfagos er mwyn trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r holl gymunedau cyfagos.

**Bwyd mewn ysgolion lleol.**

Darparodd y Cynghorydd Griffiths wybodaeth ynghylch faint o fwyd ysgol yn Gwynedd sy'n dod o ffynonellau lleol. Ymateb cychwynnol gan Gyngor Gwynedd fod y ffigwr yma yn 71% er y bydd ymholiadau pellach yn cael eu cynnal i gadarnhau cywirdeb y ffigwr yma.

Bydd y Cynghorydd Griffiths yn darparu diweddariadau ar y pwnc hwn

**Graeanu Ffordd Hermon.**

Mae'r cyngor wedi derbyn sawl cwyn ynglŷn â diffyg graeanu yn ystod y cyfnod hir diweddar o dywydd oer yn ardal Hermon. Cyngor cymuned i gwrdd â swyddogion Phriffyrdd Gwynedd i drafod y mater hwn.

**Hen Safle Canolfan Ymwelwyr-Maesgwm**

Mae’r cyngor wedi trafod bwriad CNC am alwad am syniadau ar gyfer y safle yma.

Mae’r cyngor am i’r safle cael ei ddefnyddio mewn fford sydd yn creu gwaith neu fudd ariannol eraill i’r ardal. Bydd CNC yn galw am y syniadau yn yr wythnosau nesaf.

**Materion ariannol.**

Cais Praesept 2023-24.

Bydd y cyngor cymuned yn gwneud cais am praesept o £3250 ar ôl trafod incwm a gwariant tebygol yn fanwl ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Cais praesept 2023-24.

| | | |
|---|---|---|
| Yn y banc 01/12/2022 | £3845.58 | |
| Llai sieciau heb glirio | £0 | |
| Cyfanswm | £3845.58 | |
| Incwm arfaethedig am y flwyddyn: | | |
| Precept | | |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £577 | |
| Ad daliad TAW | £350 | |
| Cyfanswm (heb preasept) | | £4772.58 |

Taliadau arfaethedig 2023/24

| | |
|---|---|
| Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £1150 |
| Llogi'r Neuadd | £225 |
| Cyflog Clerc | £1200 |
| Ysiwriant | £450 |
| Rhoddion | £600 |
| Toiled Ganllwyd | £275 |
| Archwilydd/cyfrifydd | £625 |
| (Eitemau amrywiol) | £950 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm | £4725 | |
| Gweddill (heb praesept) | | £47.78 |

**Cyllid misol.**

**Cyson Banc: Tachwedd 2022**

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £4310.58

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £8.00 |
| Costau etholiad | £107.00 |
| Partneriad toiled y pentref | £250.00 |
| Yn y Banc diwedd mis | £3845.58 |

**Cyson Banc: Rhagfyr 2022**

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3845.58 |
| Derbyniwyd: | |
| Ad-daliad llwybrau cyhoeddus | £577.10 |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £10.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £4312.68 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Cytynwyd dalu anfoneb o £32 i Un Llais Cymru ar gyfer aelodaeth blynyddol.

Cytynwyd dalu anfoneb o £211 i Elfed Ap Gomer ar gyfer gwaith cynnal wefan y cyngor